Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

Protocol Gwallau Meddyginiaeth



Cadarnhawyd gan y Bwrdd
Gorffennaf 2026

Is-grŵp Protocolau a
Gweithdrefnau

Dyddiad Adolygu
Gorffennaf 2029

Cynnwys

		TUDALEN
1	Cyflwyniad	3
2	Diffiniad – Beth yw gwall meddyginiaeth?	4
3	Y trothwy ar gyfer codi pryder diogelu	6
4	Ymateb cofnodedig gan reolwyr i wall meddyginiaeth	9
5	Adnoddau	11

Atodiad 1

Ffurflen Swyddog Atebol Cyffuriau a Reolir Aneurin Bevan 12

Atodiad 2

Siart lif prosesau 16

1. Cyflwyniad

Mae'r **Protocol Gwallau Meddyginiaeth** hwn yn weithdrefn diogelu amlasiantaeth a luniwyd i gynorthwyo'r ymateb mewn achosion lle cafwyd gwall meddyginiaeth. Mae'r protocol yn berthnasol i blant ac i oedolion.

Rhaid cofnodi'r holl wallau meddyginiaeth a'u hadrodd yn unol â'r gweithdrefnau priodol, ond ni fydd pob gwall yn bryder diogelu. Diben y protocol hwn yw rhoi arweiniad ar ymdrin â gwallau meddyginiaeth a phenderfynu pryd i godi pryder diogelu.

Mae'r protocol hwn yn gymwys i'r holl leoliadau gofal iechyd lle caiff meddyginiaeth ei rhagnodi, ei gyflenwi, ei rhoi neu ei fonitro. Mae'n cynnwys gwasanaethau gofal iechyd acíwt a chymunedol, gofal sylfaenol, gwasanaethau iechyd meddwl, cartrefi gofal, darparwyr gofal cartref, ac unrhyw amgylcheddau gofal eraill a gomisiynwyd neu a reoleiddiwyd. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â pholisi'r asiantaeth unigol a Gweithdrefnau Diogelu Cymru, sydd ar gael yma: Diogelu Cymru.

Ar hyd y ddogfen, defnyddir y term 'ymarferwr' fel term generig a bydd yn cynnwys unrhyw unigolyn â chyfrifoldeb dros ragnodi, cyflenwi, rhoi neu fonitro meddyginiaeth. Defnyddir y term 'unigolyn' i gyfeirio at y person sy'n derbyn y feddyginiaeth.

Diben

Mae canllawiau NICE (2014) yn datgan y dylai darparwyr sicrhau bod proses gadarn ar waith i adnabod, adrodd, adolygu a dysgu o wallau meddyginiaeth sy'n ymwneud â thrigolion (https://www.nice.org.uk/guidance/sc1)

Ceir Dyletswydd Gonestrwydd hefyd sy'n ceisio sicrhau y caiff unigolion a diogelwch y cyhoedd eu diogelu. Mae hon yn galw am dryloywder ac uniongyrchedd wrth ymateb i achosion o niwed neu niwed posibl, ynghyd ag ymatebion amserol, cyson a gwrthrychol.

Mae'r protocol hwn yn ceisio cefnogi'r egwyddorion hyn drwy nodi'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn pan fydd gwall meddyginiaeth yn digwydd er mwyn sicrhau cysondeb. Lle na fydd angen ymateb diogelu, mae'r protocol hwn yn nodi'r cyfrifoldebau o ran cofnodi a monitro i sicrhau y gellir adnabod unrhyw batrymau neu bryderon parhaus.

Wrth ddarganfod unrhyw bryderon o ran gwall meddyginiaeth, rhaid i ymarferwyr ystyried sicrhau diogelwch a llesiant yr unigolyn yn brif flaenoriaeth trwy sicrhau ymateb meddygol priodol. Dylid dilyn hwn â gweithred ddiogelu brydlon lle y bo angen, fel cyflwyno Dyletswydd i Adrodd dros y ffôn i'r awdurdod lleol priodol, ac yn ysgrifenedig cyn pen 24 awr.

Dylech nodi caiff ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan eu rheoli gan eu polisïau a gweithdrefnau sefydliadol eu hunain mewn perthynas â gwallau meddyginiaeth.

2. Diffiniad – Beth yw Gwall Meddyginiaeth?

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (2022) yn diffinio gwall meddyginiaeth fel:

Unrhyw ddigwyddiad y mae modd ei atal a allai achosi neu arwain at ddefnyddio meddyginiaeth yn amhriodol neu niwed i glaf tra bod y feddyginiaeth dan reolaeth y gweithiwr iechyd proffesiynol, y claf, neu ddefnyddiwr.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i: GWALL MEDDYGINIAETH

Gallai gwallau achosi digwyddiad neu niwed i unigolyn, neu gellid osgoi effaith niweidiol. Pan gaiff effaith niweidiol ei hosgoi, gellid ei ddynodi'n 'achos y bu ond y dim iddo ddigwydd'. Fodd bynnag, mae'n bwysig ei gofnodi o hyd i ganfod unrhyw batrymau o bryder.

Mae nifer o resymau dros ddigwyddiadau meddyginiaeth, fel diffyg gwybodaeth, methu â dilyn system a phrotocolau, torri ar draws, cymhwysedd staff, llawysgrifen a chyfarwyddiadau gwael, cyfathrebu gwael, diffyg hyfforddiant neu wall dynol sylfaenol. Mae'n bwysig cefnogi staff pan fyddant yn rhan o wall meddyginiaeth.

Pwysigrwydd Siartiau Rhoi Meddyginiaeth (MAR)

Disgwylir i ymarferwyr ddefnyddio Siartiau Rhoi Meddyginiaeth electronig (eMAR). Rhaid cael prosesau cadarn ar waith i sicrhau y caiff gwybodaeth am feddyginiaeth ei throsglwyddo'n gywir ac yn brydlon o bresgripsiynau, labeli fferyllol, gwybodaeth rhyddhau o'r ysbyty, neu Siartiau Rhoi Meddyginiaeth papur. Rhaid i staff wirio bod holl fanylion y feddyginiaeth, gan gynnwys y dos, pa mor aml, dull, ac unrhyw newidiadau i driniaeth, wedi'u cofnodi'n gywir a'u diweddaru ar y system electronig cyn rhoi'r feddyginiaeth i'r unigolyn.
Cofnodion papur yw'r eithriad yn y rhan fwyaf o leoliadau gofal a gomisiynwyd erbyn hyn, yn enwedig cartrefi gofal a gwasanaethau gofal cartref. O'r herwydd, rhaid i sefydliadau sicrhau bod y staff wedi derbyn hyfforddiant priodol ac yn gymwys i ddefnyddio systemau meddyginiaeth electronig. Rhaid adrodd yn syth unrhyw anghysondeb rhwng y dogfennau ffynhonnell a'r cofnodion electronig, ei archwilio a'i ddatrys yn unol â'r gweithdrefnau adrodd gwall meddyginiaeth lleol er mwyn lleihau risg niwed cymaint â phosibl a chefnogi'r gwaith o reoli meddyginiaethau'n ddiogel.

Enghreifftiau

Isod ceir enghreifftiau generig o wallau meddyginiaeth a allai godi mewn unrhyw leoliad. Nid yw'n rhestr gyflawn a dylid ei hystyried ar y cyd â barn broffesiynol.

Rhagnodi
• Meddyginiaeth wedi'i dyblygu: cyffur a ragnodwyd trwy frand a thrwy enw generig, neu ddwy feddyginiaeth sydd â'r un weithred • Dos, cryfder neu fformwleiddiad anghywir • Cyflenwi meddyginiaeth a derfynwyd • Gofyn am feddyginiaeth o'r feddygfa, ond dim presgripsiwn wedi'i ddarparu heb reswm • Rhagnodi meddyginiaeth i unigolyn lle gwyddys bod hwnnw ag alergedd iddi • Rhagnodi meddyginiaeth wedi'i gwrtharwyddo i unigolyn • Rhagnodi meddyginiaeth i unigolyn nad oes arno ei angen • Rhagnodi meddyginiaeth i unigolyn sy'n cael ymadwaith nas dymunir â meddyginiaeth arall y mae hwnnw'n ei chymryd heb gofnodi'r rhesymeg dros y risg.
Monitro (Mae enghreifftiau o gyffuriau sydd angen eu monitro'n cynnwys gwrthgeulyddion; glycosidau cardiaidd; diwretigion; gwrth-arhythmig; hormon thyroid; gweithredyddion gwrthfania; inswlin a rhai cyffuriau gwrth-riwmatig.)
• Heb ofyn am fonitro • Wedi gofyn am fonitro ond heb ei gyflawni • Monitro wedi'i gyflawni ond canlyniadau heb fod ar gael • Heb weithredu ar y canlyniadau
Dosbarthu
• Cyflenwi meddyginiaeth ddyblyg • Cyflenwi'r dos anghywir ac nid yr un a ragnodwyd • Cyflenwi'r cryfder anghywir ac nid yr un a ragnodwyd • Cyflenwi'r fformwleiddiad anghywir ac nid yr un a ragnodwyd • Cyflenwi cyffur anghywir ac nid yr un a ragnodwyd • Cyflenwi meddyginiaeth a aeth heibio'r dyddiad wedi darfod • Heb gyflenwi meddyginiaeth a ragnodwyd • Gwall ar y label
Rhoi
• Heb roi meddyginiaeth a ragnodwyd am reswm anghlinigol a nodwyd • Rhoi meddyginiaeth rhywun arall na chafodd ei rhagnodi i'r unigolyn • Rhoi dos(au) ychwanegol neu ddos(au) anghywir • Rhoi meddyginiaeth i unigolyn lle gwyddys bod hwnnw ag alergedd iddi • Rhoi'r feddyginiaeth anghywir • Rhoi'r fformwleiddiad anghywir • Rhoi meddyginiaeth a aeth heibio'r dyddiad wedi darfod • Rhoi meddyginiaeth ar yr amser anghywir • Rhoi meddyginiaeth yn y ffordd anghywir. • Meddyginiaeth yn cael ei rhoi yn gudd neu heb gyfarwyddyd clir am driniaeth gan ragnodwr.

Archebu a chadw cofnodion
• Stoc heb ei harchebu, heb ei chofrestru'n gywir, neu heb ei dwyn ymlaen yn gywir • Diffyg cofnod o'r rhesymau pam na chafodd meddyginiaeth ei harchebu/ nad yw'r feddyginiaeth ar gael • Heb adolygu/cymryd camau priodol i ddod o hyd i'r feddyginiaeth pan nad oedd ar gael yn wreiddiol • Cofrestru meddyginiaeth a derfynwyd / nas ragnodwyd • Stoc heb ei chadw mewn lleoliad priodol • Heb gwblhau cofnodion Cyffuriau a Reolir yn gywir • Heb lofnodi Siart Rhoi Meddyginiaeth • Heb lofnodi Siart Rhoi Meddyginiaeth yn briodol (e.e. fel petai'r feddyginiaeth wedi cael ei rhoi ond mae'r cyfrifiad stoc / pecynnau Systemau Aml-ddos yn dangos i'r gwrthwyneb) • Newid neu ddiwygio Siart Rhoi Meddyginiaeth yn fwriadol • Heb gwblhau/diweddaru Siart Rhoi Meddyginiaeth yn gywir • Heb ddefnyddio Siart Rhoi Meddyginiaeth

3. Y trothwy ar gyfer codi pryder diogelu

Ni fydd angen cyflwyno Dyletswydd i Adrodd ar gyfer pob gwall meddyginiaeth. Fodd bynnag, bydd angen cyflwyno Dyletswydd i Adrodd ar gyfer gwall meddyginiaeth mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft lle bydd yr unigolyn neu'r unigolion dan sylw yn cael ei niweidio, neu lle roedd potensial iddynt gael niwed. Caiff niwed ei ddiffinio fel amhariad ar iechyd sy'n arwain at gynnydd yn anghenion gofal a chymorth yr unigolyn.

Bydd prosesau a dyletswyddau ychwanegol o fewn sefydliadau hefyd, fel trefniadau adrodd lleol a chenedlaethol, a chymhwyso'r Ddyletswydd Gonestrwydd o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Dylid dilyn polisi'r sefydliad bob amser.

Mae manylion proses Gwent ar gyfer cyflwyno Dyletswydd i Adrodd ar gael yma:

Rhoi gwybod am oedolyn sydd mewn perygl – Diogelu Gwent
Rhoi gwybod am blentyn sydd mewn perygl – Diogelu Gwent

Rhaid cyflwyno ffurflen Ddyletswydd i Adrodd dan rai amgylchiadau penodol lle cafwyd gwall meddyginiaeth.

Enghreifftiau o achosion lle mae'n RHAID cyflwyno ffurflen Ddyletswydd i Adrodd (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

- Mae'r gwall meddyginiaeth yn achosi marwolaeth, anaf neu'n gwaethygu cyflwr yr unigolyn (er enghraifft, mynd i'r ysbyty);
- Achos o gam-drin neu esgeuluso, neu lle amheuir bod cam-drin neu esgeuluso wedi digwydd;

- Digwyddiad wedi'i adrodd i'r Heddlu, neu ei archwilio ganddi.
- Rhoddir meddyginiaeth fel dull o ataliaeth anghyfreithiol (e.e. lle rhoddir cyffur tawelu heb ei rhagnodi, neu lle rhoddir dos uwch o gyffur a ragnodwyd, neu ei rhoi'n fwy aml nag y rhagnodwyd).
- Gweithred fwriadol i roi/peidio â rhoi meddyginiaeth yn groes i gyfarwyddiadau'r rhagnodwr (e.e. cynyddu dos meddyginiaeth yn fwriadol, neu beidio â'i rhoi).
- Meddyginiaeth yn cael ei rhoi'n gudd heb brotocol penodol ar waith ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn gudd (e.e. rhoi tabled mewn iogwrt lle mae client â chapasiti/heb gapasiti wedi gwrthod ei gymryd).
- Digwyddiadau meddyginiaeth dilynol/ailadroddus yn ymwneud â'r un client (e.e. ni roddir meddyginiaeth a ragnodwyd dros fwy nag un cylch oherwydd ni chafodd ei harchebu neu ei chasglu).
- Un digwyddiad meddyginiaeth yn effeithio ar nifer o gleientiaid (e.e. methu neu ohirio cylch meddyginiaeth cyfan).
- Digwyddiadau lluosog/ailadroddus o fewn yr un gwasanaeth, neu gan yr un ymarferydd (e.e. aelod penodol o staff yn rhoi meddyginiaeth yn anghywir ar fwy nag un achlysur).
- Dod o hyd i ormod o feddyginiaeth sy'n awgrymu nad yw'r feddyginiaeth yn cael ei rhoi'n briodol.

Lle bydd gan ymarferydd bryderon ynghylch gwall meddyginiaeth posibl, dylai ceisio cyngor ac arweiniad yn syth gan ei berson Diogel Dynodedig a/neu'r awdurdod lleol.

Enghreifftiau o achosion lle GELLID cyflwyno ffurflen Ddyletswydd i Adrodd a lle dylid ceisio cyngor:

- Gwall meddyginiaeth un-tro ar gyfer mwy nag un person lle na achoswyd unrhyw niwed
- Pryderon wedi'u nodi'n flaenorol ond ni chafodd camau cywirol eu cynnal
- Mesurau atal annigonol ar waith fel hyfforddiant, goruchwylio ac archwilio.

Mae manylion cyswllt adrannau Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion holl awdurdodau lleol Gwent ar gael yma:
Rhoi gwybod am oedolyn sydd mewn perygl – Diogelu Gwent
Rhoi gwybod am blentyn sydd mewn perygl – Diogelu Gwent

Mae'n bosibl y bydd achosion yn codi lle bydd ymarfer gwael yn arwain at wall meddyginiaeth heb fod angen cyflwyno ffurflen Ddyletswydd i Adrodd. Fodd bynnag, mae angen ymateb cofnodedig gan reolwyr ar gyfer unrhyw ymarfer gwael a nodir wrth roi meddyginiaeth, p'un a gaiff ffurflen Ddyletswydd i Adrodd ei chyflwyno ai peidio. Gall ymarfer gwael ar unrhyw lefel nas aed i'r afael ag ef arwain at wallau meddyginiaeth sy'n cael effaith negyddol ar gleientiaid. Mae ymateb yn weithredol i bob gwall meddyginiaeth yn lliniaru'r risg y bydd yn digwydd eto ac yn gwella ymarfer (gweler isod am fwy o fanylion).

Enghreifftiau o achosion lle na fydd angen cyflwyno ffurflen Ddyletswydd i Adrodd ar gyfer gwall meddyginiaeth, ond bydd angen ymateb cofnodedig gan reolwyr:

- Bwlch yn y cofnod (e.e. llofnod ar goll ar y Siart Rhoi Meddyginiaeth, ond mae eich archwiliad yn canfod y cafodd y feddyginiaeth ei rhoi'n gywir, ni chafwyd unrhyw niwed, rydych wedi cymryd camau priodol gyda'r aelod o staff dan sylw, ac wedi eu cofnodi).
- Ni chafodd y feddyginiaeth ei rhoi ar un achlysur (e.e. nid yw'r oedolyn yn cael y feddyginiaeth a ragnodwyd iddo (wedi methu dos/dos anghywir) ar un achlysur ac mae'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol* yn cadarnhau na chafwyd unrhyw niwed. Rydych wedi cymryd camau priodol gyda'r aelod o staff dan sylw ac wedi eu cofnodi).
- Ni chafodd y feddyginiaeth ei rhoi ar fwy nag un achlysur ac mae'r gweithiwr gofal iechyd perthnasol yn cadarnhau na chafwyd unrhyw niwed (e.e. heb roi meddyginiaeth ar sawl achlysur neu wallau gweinyddol a nodwyd trwy broses arsylwi neu archwilio. O'i ganfod, rydych yn gweithredu'n gyflym trwy gynnal hyfforddiant/goruchwyliaeth. Rydych yn monitro'r sefyllfa'n agos hyd nes y bydd yr ymarfer gwael wedi'i gywiro. Rydych wedi cofnodi'r digwyddiad a'r camau a gymerwyd/cyngor a roddwyd.
- Rhoddwyd y feddyginiaeth yn hwyr (e.e. mae digwyddiad dirybudd yn golygu bod rhai wedi cael eu meddyginiaeth yn hwyrach nag y bwriadwyd. Rydych wedi gwirio i sicrhau nad oedd gan unrhyw feddyginiaeth sensitifrwydd amser ac wedi cadarnhau hynny gyda'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol perthnasol, sydd wedi cadarnhau na achoswyd unrhyw niwed. Rydych wedi cofnodi'r digwyddiad a'r camau a gymerwyd/cyngor a roddwyd).
- Mae aelod o staff yn llofnodi'r Siart Rhoi Meddyginiaeth papur mewn inc coch (e.e. rydych wedi atgoffa'r aelod o staff o'ch polisi ac wedi sicrhau bod cyflenwad o ysgrifbinnau du ar gael/ wedi cael gwared ar yr ysgrifbinnau coch).
- Gwall wrth gofnodi/trawsgrifio yn ystod y broses gofrestru neu drawsgrifio'r Siartiau Rhoi Meddyginiaeth na chafodd unrhyw effaith ar y broses o roi meddyginiaeth, ond lle roedd risg o wallau meddyginiaeth pe na sylwyd ar y gwallau (gwall y bu ond y dim iddo ddigwydd). Er enghraifft, cofnodwyd meddyginiaeth PRN fel dos rheolaidd oherwydd gwall trawsgrifio, neu ni chafodd y feddyginiaeth a dderbyniwyd / a ddygwyd ymlaen ei chofnodi wrth ei derbyn.
- Mae aelod o'r staff wedi newid ei llythrennau blaen ac mae'r daflen llofnodion enghreifftiol yn dangos ei enw blaenorol (e.e. mae'r aelod o staff yn llofnodi'r daflen llofnodion enghreifftiol eto gyda'i llythrennau blaen newydd a'r dyddiad y dechreuodd defnyddio ei lythrennau blaen newydd i lofnodi Siartiau Rhoi Meddyginiaeth. Nid yw'r cofnod gwreiddiol ar y daflen llofnodion enghreifftiol yn newid fel bod modd olrhain y Siartiau Rhoi Meddyginiaeth blaenorol i'r person hwn).

Nid yw'r enghreifftiau hyn yn rhestr gyflawn, ac mae'n bwysig i ymarferwyr ystyried pob gwall meddyginiaeth ar sail fesul achos gan ddefnyddio ei farn broffesiynol. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch yr

angen am ffurflen Ddyletswydd i Adrodd, dylid ceisio cyngor gan y Gwasanaethau Plant neu Wasanaethau i Oedolion.

Gwallau Cyffuriau a Reolir

Ni fydd angen cyflwyno ffurflen Ddyletswydd i Adrodd ar gyfer pob gwall cyffur a reolir. Dylid cyflwyno ffurflen Ddyletswydd i Adrodd pan fydd gwall cyffur a reolir yn achosi niwed neu'r posibilrwydd o newid lle mae pryder o ran cam-drin, esgeuluso neu ymarfer anniogel.

Fodd bynnag, dylid adrodd yr holl wallau sy'n ymwneud â chyffuriau a reolir, gan gynnwys y rhai a adroddwyd i'r adran ddiogelu, i Swyddog Atebol Cyffuriau a Reolir y Bwrdd Iechyd, gan ddefnyddio'r ffurflen bwrpasol a anfonir at gartrefi gofal lle y bo'n gymwys (Gweler Atodiad 1).

4. Ymateb cofnodedig gan reolwyr i wallau meddyginiaeth

Bydd angen ymateb cofnodedig gan y lleoliad sydd â chyfrifoldeb dros roi'r feddyginiaeth ar gyfer pob gwall meddyginiaeth, os yw'r trothwy diogelu wedi'i gyrraedd ai peidio. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer canfod a mynd i'r afael yn briodol ag unrhyw batrymau o ymarfer gwael, a allai fod yn arwydd o bryderon ehangach o ran cam-drin neu esgeuluso.

Mae gan bob lleoliad gyfrifoldeb i sicrhau bod yr holl gofnodion a dogfennaeth mewn perthynas â rhoi meddyginiaeth, naill ai ar bapur neu'n electronig, ar gael i'r holl ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol.

Bydd gan bob asiantaeth, sefydliad a darparwr gofal ei fframwaith, polisïau a gweithdrefnau mewnol ei hun ar gyfer rheoli ac ymateb i wallau meddyginiaeth. Gallai'r trefniadau lleol hyn amrywio yn ôl gofynion rheoleiddiol, strwythurau staffio a modelau gweithredu. Mae'r camau a nodwyd isod yn cynnig awgrymiadau ar gyfer ymateb cofnodedig, ond dylid eu darllen ar y cyd â disgwyliadau diogelu a llwybrau trefniadol pob asiantaeth unigol.

Gallai rhai o'r camau gweithredu gynnwys:

Archwilio – Bydd cynnal archwiliad cadarn, rheolaidd o systemau meddyginiaeth yn helpu i sicrhau y caiff gwallau a thueddiadau eu hadnabod yn gyflym.
Cadwch lygad allan am feddyginiaethau sydd â dosau amrywiol ar adegau (e.e. Warfarin), y rhai nad ydynt yn rheolaidd (e.e. gwrthfiotig) a'r rhai a gedwir mewn mannau heblaw'r cwpwrdd meddyginiaeth (e.e. diferion llygad a rhai elïau argroenol) gan fod gwallau'n digwydd yn aml gyda'r rhain. Bydd archwiliad da'n gwirio bod meddyginiaeth pob unigolyn yn cael ei rhoi yn unol ag anghenion y person, yn cael ei harchebu mewn da bryd, caiff meddyginiaeth o'r fferyllfa'n ei chadarnhau'n gywir wrth ei derbyn, bod y cofnodion o ran rhoi, gwrthod a gwaredu'n gywir, caiff dyddiadau dod i ben eu

harchwilio, a bod cofnodion rhoi'r feddyginiaeth yn gyson â'r meintiau sy'n weddill o'r feddyginiaeth a ddelir ar gyfer pob unigolyn. Dylid cynnal archwiliadau'n fwy aml pan fydd aelodau newydd o staff yn rhoi meddyginiaeth ac fel ymateb i wallau a ganfuwyd. Dylid ceisio hyfforddiant ac arweiniad ar ymarfer gorau, a'u hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Dylid hefyd ystyried trefnu sefydliad allanol i gefnogi'r broses archwilio.

Ymchwilio – Mae'n bwysig ymchwilio i achos sylfaenol unrhyw wall meddyginiaeth er mwyn penderfynu a oes angen adolygu gweithdrefnau ysgrifenedig, rhoi hyfforddiant ychwanegol i unigolion neu dimau o staff, neu a oes modd lliniaru risg gwall damweiniol trwy newid ymarfer.

Mae'n bwysig ymchwilio i achos sylfaenol unrhyw wall meddyginiaeth i benderfynu a oes angen adolygu gweithdrefnau ysgrifenedig, a oes angen hyfforddiant ychwanegol, hyfforddiant diweddaru, ailasesu cymhwysedd neu oruchwylio ar unigolion neu dimau staff, ac a ellir lliniaru risg gwall damweiniol trwy newid ymarfer. Dylai darparwyr sicrhau bod ymarferwyr sy'n cymryd rhan yn y broses o roi a monitro meddyginiaeth yn derbyn hyfforddiant priodol wrth ymsefydlu ac yn rheolaidd wedi hynny, yn unol â pholisi sefydliadol a chymhwysedd asesedig.

Ar gyfer pryderon mwy eang, bydd adroddiad ymchwilio manwl yn cynnwys manylion a allai gynnwys datganiadau gan y staff perthnasol, copïau dienw o Siartiau Rhoi Meddyginiaeth/cofnodion digidol, cofnodion darparu gofal, cyfathrebu â phartïon perthnasol (e.e. rhagnodwr, Diogelu, Arolygiaeth Gofal Cymru), cofnod ffeithiol ysgrifenedig o'r ymchwiliad a gynhaliwyd, y casgliadau a'r camau a gymerwyd.

Cofnod – Dylech gadw cofnod o'r gwallau meddyginiaeth perthnasol ar gyfer y prosesau ymchwilio, archwilio a gwella ansawdd, ac fel tystiolaeth o'r camau a gymerasoch i fynd i'r afael â'r digwyddiad.

Rhaid i sefydliadau rhoi eu dogfennau eu hunain ar waith i archwilio gwallau meddyginiaeth yn gyson, er mwyn darganfod tueddiadau o ran gwallau a allai, yn eu tro, pennu angen hyfforddiant penodol neu'r angen am hysbysiad Diogelu. Gallai Tîm Sicrwydd Ansawdd yr Awdurdod Lleol/Timau Comisiynu'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd, ac unrhyw gomisiynwyr perthnasol neu Arolygiaeth Gofal Cymru ofyn am wybodaeth mewn perthynas â gwallau meddyginiaeth er mwyn sicrhau cadernid y prosesau rheoli. Hefyd, cyfeirio at arweiniad NICE a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar gyfer ymarfer gorau.
Cynhyrchion – Rheoli Meddyginiaethau | Pwnc | NICE
Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Rhannu dysgu – Hyd yn oed lle bydd natur y gwall meddyginiaeth yn gymharol amherthnasol, mae'n ymarfer da i rannu dysgu.

Mae cyfathrebu'n effeithiol am yr hyn a ddysgwyd o ymchwiliadau i wallau meddyginiaeth yn hanfodol er mwyn creu diwylliant sy'n cydnabod y gall gwallau ddigwydd a'u bod yn digwydd. Mae rhannu dysgu mewn ffordd sy'n hyrwyddo ymarfer gwell yn hytrach nag annog staff i guddio neu gelu gwallau gwirioneddol oherwydd yr ofn o gael eu cosbi yn debygol o arwain at ddatgelu gwallau'n fwy tryloyw pan fyddant yn digwydd.

Cefnogi staff – Mae'n hollbwysig cefnogi staff pan fyddant wedi bod yn rhan o wall meddyginiaeth / gwall y bu ond y dim iddo ddigwydd gan ei fod yn gallu achosi trallod a phryder i ymarferwyr, yn enwedig lle y caiff effaith uniongyrchol.

Dylid cynnig cymorth ar sail yr unigolyn, a gallai cynnwys cyfeiriad i'r

gwasanaeth Llesiant Staff / cyfeiriad i'r gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol / hwyluso cefnogaeth undeb llafur. Caiff anghenion datblygu proffesiynol eu nodi hefyd a'u hwyluso er mwyn lleihau'r risg y bydd gwallau tebyg yn codi eto. Gallai hyn gynnwys prosesau myfyrio, goruchwylio, hyfforddiant pellach ac asesu cymhwyster. Mae Polisi ar gyfer rheoli a chefnogi staff yn dilyn gwall meddyginiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gael yma.

5. Adnoddau

Recommendations | Medicines optimisation: the safe and effective use of medicines to enable the bes…

Discussing-and-planning-medicines-support-quick-guide-1.pdf

Professional guidance on the administration of medicines in healthcare settings - Royal College of Pharmacy

All-Wales-guidance-to-support-integrated-medicines-management-in-community-settings

GWALL MEDDYGINIAETH

Policy for managing and supporting staff following a medication error_BESS.pdf

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Atodiad Un: Ffurflen Swyddog Atebol Cyffuriau a Reolir Aneurin Bevan

Dylech roi cymaint o wybodaeth â phosibl wrth gwblhau'r adroddiad hwn,. RHAID adrodd digwyddiadau, pryderon ac anghysondebau i'r Swyddog Atebol cyn gynted â phosibl, a chyn

pen 48 awr yn ddelfrydol.

Dylech nodi na ddylid anfon manylion y claf gyda'r ffurflen hon fel mater o drefn. Dylech sicrhau y caiff y ffurflen hon ei hanfon at y Swyddog Atebol mewn ffordd ddiogel.

Rhif cyfeirnod: (defnydd swyddfa)	**Dyddiad:**
Enw a chyfeiriad yr eiddo:	
Cod post:	**Cod contractiwr neu Ymarfer** (os yn briodol)**:**

Person cyfrifol yn y lleoliad:	**Teitl swydd:**
Rhif ffôn:	**Cyfeiriad e-bost:**

Person sy'n adrodd y digwyddiad:	**Teitl swydd:**
Rhif ffôn:	**Cyfeiriad e-bost:**

Lleoliadau sy'n berthnasol i'r digwyddiad *(Dewiswch bob un perthnasol)*							
Practis Meddyg Teulu	☐	Darparwr Meddyg Teulu Tu Allan i Oriau	☐	Practis Deintyddol	☐	Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau	☐
Ward Ysbyty	☐	Theatr Ysbyty	☐	Fferyllfa Ysbyty	☐	Ysbyty - arall	☐
Cartref Gofal	☐	Claf Allanol Cymunedol	☐	Nyrsio Cymunedol	☐	Fferyllfa Gymunedol	☐
Bydwragedd	☐	Rhwydwaith Cymru	☐	Dalfa Heddlu	☐	Arall:	

Disgrifiad o'r mater/pryder (Rhowch ddisgrifiad clir o beth ddigwyddodd neu natur y pryder):	
Dyddiad y digwyddiad:	**Amser y digwyddiad**:

Y personél sy'n berthnasol i'r digwyddiad (defnyddiwch ddalen ar wahân os bydd angen):				
Enw	**Teitl swydd**	**Rhif cofrestru**	**Manylion cyswllt**	**Rôl**

Digwyddiad	**Nodwch bob blwch perthnasol**	**Manylion**
Digwyddiad rhagnodi:	☐	Manylion y rhagnodwr:
Digwyddiad fferyllol/ cyflenwi:	☐	Manylion y fferyllydd/cyflenwr:
Anghysondeb ar y gofrestr gyffuriau a reolir yn erbyn stoc wirioneddol:	☐	Manylion yr anghysondeb:
Digwyddiad rhoi meddyginiaeth:	☐	Manylion y rhoddwr:
Cyffuriau a reolir ar goll:	☐	Manylion:
Cadw cofnodion:	☐	Manylion cadw cofnodion:
Diogelwch:	☐	Manylion diogelwch:
Trosedd neu dwyll ameuedig/ gwirioneddol:	☐	Manylion y drosedd neu dwyll:
Arall (nodwch)**:**		

Manylion y camau a gymerwyd i ddatrys y mater, gan gynnwys y camau uniongyrchol i atal neu leihau niwed i'r cleifion ac unrhyw ymchwiliadau a gynhaliwyd (rhowch fanylion y camau a gymerwyd hyd at adrodd y digwyddiad i'r Swyddog Atebol Cyffuriau a Reolir. Os yw'r ymchwiliad yn dal i fynd rhagddo, dylech nodi hyn yn eich adroddiad er mwyn caniatáu i'r Swyddog Atebol ddilyn i fyny ar y mater yn y dyfodol):

Person sy'n ymchwilio:	**Teitl swydd:**
Person sy'n ymchwilio:	**Teitl swydd:**
Person sy'n ymchwilio:	**Teitl swydd:**

Manylion y camau gweithredu a gymerwyd i atal y math hwn o ddigwyddiad rhag digwydd eto (dylech gynnwys manylion yr holl gamau nas cyflawnwyd hyd yma mewn perthynas â'r digwyddiad ei hun neu a gaiff eu cymryd i atal digwyddiad/pryder tebyg rhag digwydd yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys briffiau staff, hyfforddiant, myfyrio personol, ffurflen digwyddiad arwyddocaol ac ati):	
Wedi adrodd y mater ar Datix? D/N	**Rhif Datix:**

Y camau gweithredu a gymerwyd gan y Swyddog Atebol Cyffuriau a Reolir (defnydd swyddfa):

Llofnod y Person Cyfrifol o Dîm Llywodraethu Cyffuriau a Reolir:

Dyddiad:

Lle y bydd digwyddiad, neu ddigwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd, yn ymwneud â chyffuriau a reolir, dylid llenwi'r ffurflen hon yn electronig a'i dychwelyd at: **ABB.CDAO@wales.nhs.uk**

Jonathan Simms
Swyddog Atebol Cyffuriau a Reolir
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Tŷ Llanarth
Trecelyn
NP11 5GH
Ffôn 01495 241290
E-bost: **ABB.CDAO@wales.nhs.uk**

Atodiad Dau: Siart llif

DYLECH SICRHAU SYLW MEDDYGOL YN SYTH I'R UNIGOLYN LLE Y BYDD ARNO EI ANGEN

A gafwyd unrhyw niwed?

A gafodd y feddyginiaeth ei rhoi fel dull o dawelu anghyfreithlon?

A oedd yn weithred fwriadol?

A gafodd y feddyginiaeth ei rhoi yn gudd heb ddilyn proses briodol?

A oedd nifer o ddigwyddiadau, neu ddigwyddiadau cyson yn ymwneud a'r un cleient?

A gafwyd un digwyddiad meddyginiaeth a effeithiodd ar nifer o gleientiaid?

A oedd nifer o ddigwyddiadau, neu ddigwyddiadau cyson o fewn yr un gwasanaeth, neu yn ymwneud â'r un cyflawnwr?

DO → Cyflwyno Ffurflen Ddyletswydd i Adrodd

Rhoi gwybod am oedolyn sydd mewn perygl – Diogelu Gwent

Rhoi gwybod am blentyn sydd mewn

NA → **Mae'n bosibl na fydd angen Ffurflen Ddyletswydd i Adrodd, ond mae angen ymateb gan reolwyr:**

- Ymchwilio i'r gwall
- Penderfynu a oes angen cyngor meddygol.
- Cymryd camau gweithredu priodol gyda'r staff.
- Cynnal archwiliad i bennu a oes gwallau eraill wedi digwydd.
- Ystyried a ddylid adolygu gweithdrefnau.
- Rhannu dysgu gyda thîm y staff.